Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bro Cinmeirch

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bro Cinmeirch yn gymuned hapus a chyfeillgar. Mae’r pennaeth yn cydweithio’n effeithiol â gweddill y staff i greu amgylchedd dysgu cynhwysol. Mae hyn yn arwain y disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn hybu ymddygiad da.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae ei hamgylchedd meithringar yn cefnogi datblygiad personol disgyblion yn fawr, gan eu helpu i ffynnu. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf â nhw. Mae’r disgyblion yn dangos parch amlwg tuag at oedolion.

Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o’r mannau dysgu mewnol a hefyd o dir ac ardaloedd allanol. Mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i gyfrannu eu syniadau at weithgareddau ac mae’r athrawon yn cynllunio cwricwlwm diddorol sy’n datblygu medrau a gwybodaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Er hyn, nid yw’r gweithgareddau dysgu, bob amser, yn cynnig lefel o her addas i ddiwallu anghenion bob disgybl.

Mae arweinwyr wedi llwyddo i ddatblygu ethos Cymraeg cryf yn yr ysgol. Mae staff yn defnyddio ystod effeithiol o ddulliau i hybu balchder y disgyblion at eu hiaith a’u treftadaeth. Maent yn hybu defnydd o’r iaith yn gelfydd, ac o ganlyniad, mae medrau llythrennedd Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n lwyddiannus.

Mae’r llywodraethwyr yn cefnogi’r ysgol yn effeithiol ac yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol gan y pennaeth am ei pherfformiad. Mae amrywiaeth o ddulliau a ffynonellau yn cael eu defnyddio i fonitro ansawdd y cwricwlwm a’r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw canfyddiadau’r gweithgareddau monitro bob amser yn rhoi digon o bwyslais ar werthuso effaith y ddarpariaeth ar fedrau a chyrhaeddiad disgyblion.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a medrau'r disgyblion

A2 Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn unol â'u gallu

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025